GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Y Rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi**

# Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Meithriniadau Gwaed Cymru 2016-2022



Fersiwn 1

Cyhoeddwyd: 04/07/2023

Gellir gweld y Rhaglen Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd i Wrthfiotigau a Rhagnodi (HARP) drwy fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: https://icc.gig.cymru/

Cyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ

Cyhoeddwyd 4 Gorffennaf 2023, Fersiwn 1

## Diolchiadau

Mieko Yasunishi (Gwybodeg PHW), Dr Lim Jones a Dr Mandy Wootton (SACU, PHW)

## Awduron yr Adroddiad

Maggie Heginbothom, Siân Boots, Daryn Sutton a Robin Howe ar ran Rhaglen HARP

## Cyfeiriwch at y ddogfen hon fel:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru: Ymwrthedd Gwrthfacterol mewn Meithriniadau Gwaed yng Nghymru 2022

## Dylid cyfeirio ceisiadau am ddata ac ymholiadau at:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhaglen HARP

4ydd Llawr, Rhif 2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

E-bost: harp@wales.nhs.uk

# Cynnwys

Diolchiadau ..... 1
Awduron yr Adroddiad ..... 1
Cyfeiriwch at y ddogfen hon fel: ..... 1
Dylid cyfeirio ceisiadau am ddata ac ymholiadau at: ..... 1
Cynnwys ..... 2
Cyflwyniad ..... 3
Methodoleg ..... 3
Data ar ymwrthedd ..... 3
Ffynonellau Data ..... 3
Grwpiau Gwrthficrobaidd ..... 3
Pwyntiau Allweddol o Ddiddordeb ..... 3
Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd ar gyfer yr organebau mwyaf cyffredin sy'n achosi bacteremia ..... 4
*Escherichia coli* (n = 2,107 yn 2022) ..... 4
*Klebsiella* spp. (n = 658 yn 2022) ..... 6
*Enterobacter* spp. (n = 106 yn 2022) ..... 9
*Serratia* spp. (n = 82 yn 2022) ..... 11
*Proteus* spp. (n = 235 yn 2022) ..... 13
*Pseudomonas aeruginosa* (n = 183 yn 2022) ..... 15
*Staphylococcus aureus* (n = 941 yn 2022) ..... 17
*Staphylococcus aureus* ag ymwrthedd i fethicillin (n = 74 yn 2022) ..... 18
*Staphylococcus aureus* sy'n sensitif i fethicillin (n = 867 yn 2022) ..... 20
*Enterococcus* spp. (n = 549 yn 2022) ..... 22
*Streptococcus pneumoniae* (n = 260 yn 2022) ..... 24
Dolenni defnyddiol: ..... 26

*Bydd fersiwn Gymraeg o'r graffiau yn dilyn cyn gynted â phosibl*

# Cyflwyniad

Yn 2014, cafodd Arglwydd O'Neill ei gomisiynu gan Brif Weinidog y DU i adolygu effaith fyd-eang ymwrthedd gwrthficrobaidd. Amcangyfrifodd erbyn 2050, y byddai 10 miliwn o fywydau bob blwyddyn a gwerth cronnol o 100 triliwn o ddoleri'r UD o allbwn economaidd mewn perygl o ganlyniad i'r cynnydd mewn heintiau sy'n ymwrthod cyffuriau pe na ddaethpwyd o hyd i atebion rhagweithiol nawr er mwyn arafu'r cynnydd yn yr heintiau hynny.

Mewn ymateb i adroddiad ac argymhellion Arglwydd O'Neill, ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd, a'i chynllun gweithredu cenedlaethol pum mlynedd i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Y weledigaeth yw bod rhanddeiliaid ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang gyda'i gilydd yn atgyfnerthu polisïau ac arferion, yn gwella gwaith ymchwil a gwyliadwriaeth, ac yn datblygu trefniadau rheoleiddio effeithiol i gyfyngu ar ymwrthedd a'i reoli.

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn broblem gynyddol yng Nghymru ac mae eisoes wedi arwain at nifer bach o heintiau anodd i'w trin, gan arwain at achosion o therapi yn methu a chymhlethdodau posibl. Mae triniaethau ar gyfer y rhan fwyaf o heintiau yn dechrau mewn ffordd empirig cyn bod y rhagdueddiadau gwrthficrobaidd yn hysbys. Un broblem benodol pan fydd ymwrthedd gwrthficrobaidd yn lledaenu yw ei bod hi'n dod yn anos dewis therapi empirig a fydd yn gweithredu mewn modd dibynadwy.

Nod yr adroddiad hwn gan dîm HARP yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cyflwyno data gwyliadwriaeth y gellir eu defnyddio i ddylunio canllawiau therapi empirig, ac i olrhain tueddiadau ymwrthedd gwrthficrobaidd yng Nghymru.

# Methodoleg

## Data ar ymwrthedd

### Ffynonellau Data

Daw'r data ar brofion rhagdueddiadau gwrthficrobaidd o system DataStore Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Grwpiau Gwrthficrobaidd

Yn 2012/2013, rhoddwyd methodoleg Pwyllgor Ewrop ar Brofion Rhagdueddiadau Gwrthficrobaidd (EUCAST) ar gyfer profion rhagdueddiadau gwrthficrobaidd (AST) ar waith yn yr holl labordai yng Nghymru (https://eucast.org/clinical_breakpoints).

# Pwyntiau Allweddol o Ddiddordeb

***Escherichia coli*** (yr achos mwyaf cyffredin o heintiau llif y gwaed yng Nghymru).


- Yn 2022, roedd cyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan i gyffuriau gwrthfacterol cyffredin yn amrywio:

# Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd ar gyfer yr organebau mwyaf cyffredin sy'n achosi bacteremia

## *Escherichia coli* (n = 2,107 yn 2022)

*E. coli* yw'r organeb fwyaf cyffredin sy'n tyfu o feithriniadau gwaed yng Nghymru a'r DU.

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *E. coli* yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 1**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 2**.





| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 11.9 | 2.9 | 47.7 | 31.0 | 0.0 | 18.1 | 10.0 | 0.0 | 0.0 | 14.0 |
| %I | 0.4 | 0.0 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.0 | 0.0 |
| %S | 87.8 | 97.1 | 52.1 | 68.9 | 100 | 81.8 | 90.0 | 99.9 | 100 | 86.0 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COA = co-amoxiclav, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 1: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *E. coli* (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, sef **11.9%** [10.6, 13.3] yn gymharol isel.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i amikacin yn llai na **5%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **47.7%** [45.6, 49.9] i co-amoxiclav.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **18.1%** [16.6, 19.8] i fflworocwinolon.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **10.0%** [8.8, 11.4] i gentamicin.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **14.0%** [12.6, 15.5] i piperacillin/tazobactam.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i ertapenem, imipenem a meropenem yn llai na **0.5%**.




| | 3GC | AMI | COA | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 2,451) | 13.5 | 1.5 | 33.1 | 37.1 | 0.2 | 21.1 | 10.7 | 0.0 | 0.0 | 6.1 |
| 2017 (n = 2,681) | 13.0 | 1.2 | 36.7 | 35.0 | 0.0 | 20.0 | 10.6 | 0.0 | 0.0 | 9.0 |
| 2018 (n = 2,477) | 13.7 | 0.8 | 39.6 | 36.2 | 0.2 | 19.6 | 11.4 | 0.0 | 0.0 | 13.1 |
| 2019 (n = 2,464) | 13.0 | 0.6 | 37.4 | 35.2 | 0.2 | 19.7 | 11.2 | 0.0 | 0.0 | 12.4 |
| 2020 (n = 2,016) | 12.6 | 2.2 | 45.3 | 34.8 | 0.2 | 20.1 | 10.0 | 0.0 | 0.0 | 14.4 |
| 2021 (n = 2,105) | 11.2 | 3.1 | 46.9 | 31.9 | 0.1 | 17.3 | 10.3 | 0.1 | 0.0 | 13.4 |
| 2022 (n = 2,107) | 11.9 | 2.9 | 47.7 | 31.0 | 0.0 | 18.1 | 10.0 | 0.0 | 0.0 | 14.0 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COA = co-amoxiclav, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 2: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *E. coli***
**(2016 - 2022)**


## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Gwelwyd gostyngiad amlwg yn nifer yr achosion o facteremia *Escherichia coli* wrth ystyried canlyniadau rhwng 2019 a 2020. Mae'r nifer o achosion ynysig yn 2022 yn sefydlog, sef **2,107.**
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd ar gyfer ceffalosporinau trydedd genhedlaeth dros amser.
- Bu cynnydd bach yn y gyfradd ymwrthedd i amikacin rhwng 2019 a 2021, sydd wedi sefydlogi yn 2022.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav o **33.1%** yn 2016 i **47.7%** yn 2022.
- Bu gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-trimoxazole o **37.1%** yn 2016 i **31.0%** yn 2022.
- Bu gostyngiad cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon rhwng 2016 a 2021, a **18.1%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd ar gyfer gentamicin.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i piperacillin/tazobactam o 2016 ymlaen, a **14.0%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.

- Mae'r gyfradd ymwrthedd i carbapenem (ertapenem, imipenem a meropenem) yn **<1%** o hyd.

## *Klebsiella* spp. (n = 658 yn 2022)

*Klebsiella* spp. yw'r grŵp mwyaf cyffredin ond un o organebau sy'n tyfu o feithriniadau gwaed sy'n adweithio mewn ffordd negatif i brofion Gram. Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Klebsiella* spp. yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 3**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 4**.




| | 3GC | AMI | COA | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 21.9 | 1.7 | 39.5 | 27.7 | 0.6 | 18.9 | 15.2 | 0.2 | 0.2 | 28.5 |
| %I | 0.8 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| %S | 77.4 | 98.2 | 60.5 | 72.3 | 99.4 | 80.9 | 84.8 | 99.8 | 99.8 | 71.5 |


Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COA = co-amoxiclav, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 3: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Klebsiella* spp. (2022)**

### Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **21.9%** [18.9, 25.2] i geffalosporin trydedd genhedlaeth.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i amikacin yn llai na **2%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **39.5%** [35.8, 43.3] i co-amoxiclav.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **27.7%** [24.5, 31.3] i co-trimoxazole.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **18.9%** [16.1, 22.1] i fflworocwinolon.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **15.2%** [12.7, 18.1] i gentamicin.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **28.5%** [25.1, 32.0] i piperacillin/tazobactam.

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i ertapenem, imipenem a meropenem yn llai nag **1%**.




| | 3GC | AMI | COA | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 528) | 12.1 | 1.1 | 28.2 | 24.1 | 0.4 | 9.5 | 10.0 | 0.4 | 0.0 | 12.5 |
| 2017 (n = 558) | 12.4 | 0.4 | 24.2 | 22.7 | 0.2 | 10.0 | 8.1 | 0.0 | 0.0 | 14.1 |
| 2018 (n = 559) | 18.8 | 0.0 | 30.4 | 24.7 | 1.3 | 15.4 | 10.6 | 0.9 | 1.3 | 21.6 |
| 2019 (n = 591) | 20.3 | 0.9 | 34.2 | 28.6 | 1.2 | 20.9 | 15.6 | 0.3 | 0.3 | 23.4 |
| 2020 (n = 559) | 20.0 | 0.9 | 34.3 | 24.7 | 0.9 | 19.1 | 17.9 | 0.2 | 0.2 | 27.5 |
| 2021 (n = 609) | 18.6 | 2.2 | 29.7 | 22.2 | 0.7 | 16.6 | 11.6 | 0.0 | 0.0 | 24.4 |
| 2022 (n = 658) | 21.9 | 1.7 | 39.5 | 27.7 | 0.6 | 18.9 | 15.2 | 0.2 | 0.2 | 28.5 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COA = co-amoxiclav, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam


**Ffigur 4: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Klebsiella* spp. (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu cynnydd yn nifer yr achosion o facteremia *Klebsiella* spp. â'r canlyniadau yn cynyddu o **528** yn 2016 i **658** yn 2022.
- Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer yr achosion o *Klebsiella* spp. yn rhannol i'r ffaith bod *Enterobacter aerogenes* wedi cael eu hailddosbarthu fel *Klebsiella aerogenes* yn 2019.
- Bu cynnydd sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth o **12.1%** yn 2016 i **21.9%** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i amikacin.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav o **28.2%** yn 2016 i **39.5%** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i co-trimoxazole.
- Bu cynnydd yn y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon rhwng 2016 a 2019, a **18.9%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y cyfraddau ymwrthedd i gentamicin, a **15.2%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu cynnydd sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i piperacillin/tazobactam o **12.5%** yn 2016 i **28.5%** yn 2022.
- Mae'r gyfradd ymwrthedd i imipenem a meropenem yn **<2%** ledled Cymru gyfan o hyd.

## *Enterobacter* spp. (n = 106 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Enterobacter* spp. yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 5**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 6**, ac mae cyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer 2022 i'w gweld yn **Nhabl 1**.





| | 3GC | AMI | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 17.0 | 0.9 | 19.0 | 8.6 | 5.7 | 4.8 | 3.8 | 0.9 | 19.0 |
| %I | 1.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.0 | 0.0 | 0.0 | 1.9 | 0.0 |
| %S | 81.1 | 99.1 | 81.0 | 91.4 | 93.3 | 95.2 | 96.2 | 97.2 | 81.0 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 5: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Enterobacter* spp. (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **17.0%** [11.0, 25.3] i geffalosporin trydedd genhedlaeth.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **0.9%** [0.2, 5.2] i amikacin.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **19.0%** [12.7, 27.6] i co-trimoxazole.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **8.6%** [4.6, 15.5] i ertapenem.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **5.7%** [2.6, 11.9] i fflworocwinolon.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **4.8%** [2.1, 10.7] i gentamicin.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **3.8%** [1.5, 9.3] i imipenem.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **0.9%** [0.2, 5.2] i meropenem.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **19.0%** [12.7, 27.6] i piperacillin/tazobactam.




| | 3GC | AMI | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 132) | 25.4 | 0.0 | 13.2 | 1.6 | 3.1 | 2.3 | 0.8 | 0.0 | 13.1 |
| 2017 (n = 122) | 19.2 | 0.0 | 9.9 | 7.5 | 2.5 | 5.7 | 0.8 | 0.8 | 11.7 |
| 2018 (n = 148) | 17.6 | 0.0 | 8.8 | 3.4 | 3.4 | 5.4 | 1.4 | 0.7 | 14.2 |
| 2019 (n = 123) | 19.7 | 0.0 | 11.4 | 6.5 | 8.1 | 5.7 | 1.6 | 1.6 | 14.6 |
| 2020 (n = 106) | 22.6 | 0.0 | 11.4 | 4.7 | 1.9 | 3.8 | 0.0 | 0.0 | 16.0 |
| 2021 (n = 115) | 10.4 | 0.0 | 12.2 | 2.6 | 2.6 | 2.6 | 0.0 | 0.0 | 6.1 |
| 2022 (n = 106) | 17.0 | 0.9 | 19.0 | 8.6 | 5.7 | 4.8 | 3.8 | 0.9 | 19.0 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = ciprofloxacin &/or levofloxacin, or norfloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam


**Ffigur 6: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Enterobacter* spp. (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu gostyngiad yn nifer yr achosion o facteremia *Enterobacter* spp. â'r canlyniadau yn gostwng o **132** yn 2016 i **106** yn 2022.
- Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer yr achosion o *Enterobacter* spp. yn rhannol i'r ffaith bod *Enterobacter aerogenes* wedi cael eu hailddosbarthu fel *Klebsiella aerogenes* yn 2019.
- Oherwydd y niferoedd bach yn 2022, mae'r cyfyngau hyder yn fawr, ac ar wahân i'r tuedd amlwg ar i lawr yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth, mae'r cyfraddau eraill yn newidiadwy ac nid oes unrhyw duedd amlwg.

## *Serratia* spp. (n = 82 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Serratia* spp. yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 7**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 8**, ac mae cyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer 2022 i'w gweld yn **Nhabl 1**.





| | 3GC | AMI | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 6.1 | 0.0 | 7.3 | 0.0 | 2.4 | 3.7 | 0.0 | 0.0 | 2.4 |
| %I | 1.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.2 | 0.0 | 0.0 |
| %S | 92.7 | 100 | 92.7 | 100 | 97.6 | 96.3 | 98.8 | 100 | 97.6 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = resistance to ciprofloxacin &/or levofloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 7: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Serratia* spp. (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **6.1%** [2.6, 13.5] i geffalosporin trydedd genhedlaeth (3GC).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i amikacin (AMI) yn **<1%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **7.3%** [3.4, 15.1] i co-trimoxazole (COT).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **2.4%** [0.7, 8.5] i fflworocwinolon (FQ).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **3.7%** [1.3, 10.2] i gentamicin (GEN).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **2.4%** [0.7, 8.5] i piperacillin/tazobactam (PTZ).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i carbapenem (ertapenem, imipenem, meropenem) yn **<1%**.




| | 3GC | AMI | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 79) | 19.0 | 0.0 | 7.7 | 0.0 | 3.8 | 1.3 | 0.0 | 0.0 | 7.6 |
| 2017 (n = 93) | 20.4 | 1.1 | 9.7 | 0.0 | 10.8 | 3.2 | 0.0 | 0.0 | 9.8 |
| 2018 (n = 99) | 23.2 | 1.0 | 5.1 | 0.0 | 9.1 | 3.0 | 0.0 | 0.0 | 11.1 |
| 2019 (n = 94) | 14.9 | 0.0 | 4.3 | 0.0 | 10.6 | 3.2 | 0.0 | 0.0 | 7.4 |
| 2020 (n = 78) | 16.9 | 0.0 | 1.3 | 0.0 | 3.9 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 9.1 |
| 2021 (n = 87) | 3.4 | 0.0 | 3.4 | 0.0 | 1.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 3.4 |
| 2022 (n = 82) | 6.1 | 0.0 | 7.3 | 0.0 | 2.4 | 3.7 | 0.0 | 0.0 | 2.4 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = resistance to ciprofloxacin &/or levofloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam


**Ffigur 8: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Serratia* spp. (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn nifer yr achosion o facteremia *Serratia* spp. â'r canlyniadau oedd **79** yn 2016 ac **82** yn 2022.
- Bu gostyngiad yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth (3GC) o **19.0%** yn 2016 i **6.1%** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i amikacin (AMI).
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i co-trimoxazole (COT), a **7.3%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon (FQ), a **2.4%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i gentamicin (GEN).
- Bu gostyngiad yn y gyfradd ymwrthedd i piperacillin/tazobactam o **7.6%** yn 2016 i **2.4%** yn 2022.
- Mae'r gyfradd ymwrthedd i carbapenem (ertapenem, imipenem a meropenem) yn **<1%** o hyd.

## *Proteus* spp. (n = 235 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Proteus* spp. yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 9**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 10**, ac mae cyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer 2022 i'w gweld yn **Nhabl 1**.





| | 3GC | AMI | COA | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 0.0 | 2.1 | 10.7 | 21.4 | 0.0 | 3.4 | 5.1 | 1.7 | 0.0 | 0.4 |
| %I | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.4 | 0.0 | 74.8 | 0.0 | 0.0 |
| %S | 100 | 97.9 | 89.3 | 78.6 | 100 | 96.1 | 94.9 | 23.5 | 100 | 99.6 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COA = co-amoxiclav, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = resistance to ciprofloxacin &/or levofloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 9: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Proteus* spp. (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth (3GC) yn **<1%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **2.1%** [0.9, 4.9] i amikacin (AMI).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **10.7%** [7.3, 15.3] i co-amoxiclav.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **21.4%** [16.6, 27.1] i co-trimoxazole (COT).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **3.4%** [17, 6.6] i fflworocwinolon (FQ).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **5.1%** [2.9, 8.7] i gentamicin (GEN).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **1.7%** [0.7, 4.3] i imipenem (IMI).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i piperacillin/tazobactam (PTZ) yn **<1%**.
- Mae'r gyfradd ymwrthedd i ertapenem a meropenem yn **<1%** o hyd.




| | 3GC | AMI | COA | COT | ERT | FQ | GEN | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 211) | 0.5 | 0.0 | 8.6 | 27.2 | 0.5 | 2.9 | 4.3 | 0.5 | 0.0 | 0.0 |
| 2017 (n = 221) | 2.7 | 0.9 | 12.7 | 33.2 | 0.0 | 5.9 | 8.1 | 1.8 | 0.0 | 1.8 |
| 2018 (n = 227) | 2.2 | 0.4 | 10.2 | 28.6 | 0.0 | 4.0 | 7.5 | 0.0 | 0.0 | 0.9 |
| 2019 (n = 225) | 0.0 | 0.9 | 10.2 | 22.2 | 0.0 | 3.1 | 4.0 | 0.4 | 0.0 | 0.0 |
| 2020 (n = 196) | 1.0 | 1.5 | 11.7 | 23.5 | 0.5 | 5.6 | 7.1 | 2.0 | 0.0 | 1.0 |
| 2021 (n = 203) | 0.5 | 1.0 | 8.4 | 24.6 | 0.0 | 5.4 | 8.4 | 0.5 | 0.0 | 1.5 |
| 2022 (n = 235) | 0.0 | 2.1 | 10.7 | 21.4 | 0.0 | 3.4 | 5.1 | 1.7 | 0.0 | 0.4 |

Key: 3GC = resistance to ceftazidime &/or cefotaxime, ceftriaxone, cefpodoxime, AMI = amikacin, COA = co-amoxiclav, COT = co-trimoxazole, ERT = ertapenem, FQ = resistance to ciprofloxacin &/or levofloxacin, GEN = gentamicin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 10: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Proteus* spp. (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn nifer yr achosion o facteremia *Proteus* spp. â'r canlyniadau oedd **211** yn 2016 a **235** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i geffalosporin trydedd genhedlaeth.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y cyfraddau ymwrthedd i amikacin (AMI) o **0.0%** yn 2016 i **2.1%** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i co-amoxiclav.
- Bu gostyngiad yn y gyfradd ymwrthedd i co-trimoxazole (COT), o **27.2%** yn 2016 i **21.4%** yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i fflworocwinolon (FQ), a **3.4%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i gentamicin, a **5.1%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i piperacillin/tazobactam.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i carbapenem (ertapenem, imipenem a meropenem) yn **<2%** yn 2022.

## *Pseudomonas aeruginosa* (n = 183 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Ps. aeruginosa* yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 11**. Mae'r tueddiadau yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 12**, ac mae cyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer 2022 i'w gweld yn **Nhabl 1**.





| | CAZ | CIP | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|
| %R | 3.3 | 4.9 | 12.0 | 9.8 | 7.7 |
| %I | 96.2 | 95.1 | 88.0 | 4.4 | 92.3 |
| %S | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 85.8 | 0.0 |

Key: CAZ = ceftazidime, CIP = ciprofloxacin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam

**Ffigur 11: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Ps. aeruginosa* (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **3.3%** [1.5, 7.0] i ceftazidime (CAZ).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **4.9%** [2.6, 9.1] i ciprofloxacin (CIP).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **12.0%** [8.1, 17.5] i imipenem (IMI).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **9.8%** [6.3, 15.0] i meropenem (MER).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **7.7%** [4.6, 12.4] i piperacillin/tazobactam (PTZ).




| | CAZ | CIP | IMI | MER | PTZ |
|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 188) | 5.9 | 7.4 | 7.6 | 5.3 | 4.8 |
| 2017 (n = 194) | 8.3 | 3.6 | 7.8 | 9.3 | 8.3 |
| 2018 (n = 196) | 6.2 | 6.1 | 6.6 | 4.1 | 8.2 |
| 2019 (n = 197) | 3.6 | 6.2 | 5.1 | 4.1 | 7.1 |
| 2020 (n = 166) | 3.6 | 4.8 | 6.7 | 4.2 | 5.4 |
| 2021 (n = 174) | 3.5 | 3.5 | 8.1 | 5.7 | 5.2 |
| 2022 (n = 183) | 3.3 | 4.9 | 12.0 | 9.8 | 7.7 |

Key: CAZ = ceftazidime, CIP = ciprofloxacin, IMI = imipenem, MER = meropenem, PTZ = piperacillin/tazobactam


**Ffigur 12: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Ps. aeruginosa* (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn nifer yr achosion o facteremia *Ps. aeruginosa* â'r canlyniadau oedd **188** yn 2016 a **183** yn 2022.
- Bu gostyngiad cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i ceftazidime (CAZ) o **8.3%** yn 2017 i **3.3%** yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i ciprofloxacin (CIP), a **4.9%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i imipenem (IMI), a **12.0%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i meropenem (MER), a **9.8%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu amrywiadau yn y gyfradd ymwrthedd i piperacillin/tazobactam (PTZ), a **7.7%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.

## ***Staphylococcus aureus*** **(n = 941 yn 2022)**

Mae'r tueddiadau yng nghyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *S.aureus* ar gyfer y cyfnod rhwng 2012 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 13**.




| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MRSA | 171 | 158 | 145 | 110 | 89 | 123 | 88 | 64 | 68 | 57 | 74 |
| MSSA | 689 | 734 | 717 | 758 | 692 | 834 | 914 | 822 | 767 | 852 | 867 |
| SAUR | 860 | 892 | 862 | 868 | 781 | 957 | 1002 | 886 | 835 | 909 | 941 |


**Ffigur 13: Cyfanswm niferoedd Cymru gyfan o achosion ynysig o facteremia *S. aureus***
**(2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion o facteremia *Staphylococcus aureus* (SAUR) â'r canlyniadau yn gostwng o **860** yn 2012 i **941** yn 2022, gydag uchafbwynt amlwg o **1,002** yn 2018.
- Bu gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion o *S.aureus* ag ymwrthedd i fethicillin (MRSA) o **171** yn 2012 i **74** yn 2022.
- Bu cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion o facteremia *S. aureus* sy'n sensitif i fethicillin (MSSA) o **689** yn 2012 i **867** yn 2022, gydag uchafbwynt amlwg o **914** yn 2018.

## *Staphylococcus aureus* ag ymwrthedd i fethicillin (n = 74 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer *S. aureus* ag ymwrthedd i fethicillin (MRSA) yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 14**. Mae'r tueddiadau yng nghyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 15**.





| | CLA | CLI | COT | DOX | GEN | LZD | MUP | RIF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 73.0 | 67.1 | 0.0 | 27.0 | 17.8 | 0.0 | 0.0 | 1.4 |
| %I | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 4.1 | 0.0 |
| %S | 27.0 | 32.9 | 100 | 73.0 | 82.2 | 100 | 95.9 | 98.6 |

Key: CLA = clarithromycin, CLI = clindamycin, COT = co-trimoxazole, DOX = doxycycline, GEN = gentamicin, LZD = linezolid, MUP = mupirocin, RIF = rifampicin

**Ffigur 14: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia MRSA (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **73.0%** [61.9, 81.8] i clarithromycin (CLA).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **67.1%** [55.7, 76.8] i clindamycin (CLI).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i co-trimoxazole (COT) yn **<1%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **27.0%** [18.2, 38.1] i doxycycline (DOX) .
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **17.8%** [10.7, 28.1] i gentamicin (GEN).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i linezolid (LZD) yn **<1%**.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i mupirocin (MUP) yn **<1%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **1.4%** [0.2, 7.4] i rifampicin (RIF).




| | CLA | CLI | COT | DOX | GEN | LZD | MUP | RIF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 102) | 62.7 | 49.0 | 3.1 | 12.7 | 10.9 | 0.0 | 2.0 | 1.0 |
| 2017 (n = 125) | 62.1 | 53.2 | 0.0 | 22.0 | 14.5 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| 2018 (n = 88) | 53.4 | 46.6 | 0.0 | 15.9 | 11.4 | 0.0 | 1.2 | 2.3 |
| 2019 (n = 88) | 62.5 | 53.4 | 0.0 | 28.4 | 10.2 | 0.0 | 1.1 | 1.1 |
| 2020 (n = 70) | 64.3 | 58.6 | 0.0 | 30.0 | 17.1 | 0.0 | 1.5 | 1.4 |
| 2021 (n = 57) | 71.9 | 63.2 | 0.0 | 24.6 | 10.5 | 1.8 | 1.8 | 0.0 |
| 2022 (n = 74) | 73.0 | 67.1 | 0.0 | 27.0 | 17.8 | 0.0 | 0.0 | 1.4 |

Key: CLA = clarithromycin, CLI = clindamycin, COT = co-trimoxazole, DOX = doxycycline, GEN = gentamicin, LZD = linezolid, MUP = mupirocin, RIF = rifampicin


**Ffigur 15: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia MRSA (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu cynnydd yn nifer yr achosion o facteremia MRSA â'r canlyniadau oedd **57** yn 2021 a 74 yn 2022.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i clarithromycin (CLA) o **62.7%** yn 2016 i **73.0%** yn 2022.
- Bu cynnydd yn y gyfradd ymwrthedd i clindamycin (CLI) o **49.0%** yn 2016 i **67.1%** yn 2022.
- Mae'r cyfraddau ymwrthedd i co-trimoxazole (COT) wedi parhau ar gyfradd o **<1%** rhwng 2017 a 2022.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i doxycycline (DOX) o **12.7%** yn 2016 i **27.0%** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y gyfradd ymwrthedd i gentamicin (GEN) dros amser.
- Mae'r cyfraddau ymwrthedd i linezolid (LZD), mupirocin (MUP) a rifampicin (RIF) wedi parhau ar gyfradd o **<1%**.

## *Staphylococcus aureus* sy'n sensitif i fethicillin (n = 867 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Staphylococcus aureus* sy'n sensitif i fethicillin (MSSA) yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 16**. Mae'r tueddiadau yng nghyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 17**.





| | CLA | CLI | COT | DOX | FUS | GEN | LZD | MUP | RIF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| %R | 16.3 | 13.1 | 0.6 | 5.8 | 14.3 | 2.6 | 0.0 | 0.1 | 0.9 |
| %I | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 1.4 | 0.1 |
| %S | 83.6 | 86.7 | 99.3 | 94.1 | 85.6 | 97.4 | 100 | 98.5 | 99.0 |

Key: CLA = clarithromycin, CLI = clindamycin, COT = co-trimoxazole, DOX = doxycycline, FUS = fusidic acid, GEN = gentamicin, LZD = linezolid, MUP = mupirocin, RIF = rifampicin

**Ffigur 16: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia MSSA (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **16.3%** [14.0, 18.9] i clarithromycin (CLA).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **13.1%** [11.0, 15.6] i clindamycin (CLI).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i co-trimoxazole (COT) yn **<1%**.
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **5.8%** [4.4, 7.5] i doxycycline (DOX) .
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **14.3%** [12.1, 16.8] i asid ffwsidig (FUS) .
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **2.6%** [1.7, 3.8] i gentamicin (GEN).
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i linezolid (LZD) yn **<1%**.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i mupirocin (MUP) yn **<1%**.
- Roedd y gyfradd ymwrthedd i rifampicin (RIF) yn **<1%**.




| | CLA | CLI | COT | DOX | FUS | GEN | LZD | MUP | RIF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 (n = 727) | 12.1 | 8.7 | 0.7 | 4.0 | 11.6 | 1.0 | 0.1 | 0.3 | 0.3 |
| 2017 (n = 832) | 14.4 | 11.8 | 0.5 | 3.6 | 11.5 | 0.5 | 0.0 | 0.5 | 0.6 |
| 2018 (n = 885) | 14.2 | 11.1 | 0.6 | 4.3 | 13.8 | 1.5 | 0.1 | 0.0 | 0.8 |
| 2019 (n = 827) | 14.8 | 12.2 | 0.8 | 4.1 | 13.2 | 1.2 | 0.1 | 0.3 | 0.4 |
| 2020 (n = 764) | 18.9 | 16.0 | 0.8 | 5.1 | 14.0 | 1.9 | 0.1 | 0.3 | 0.3 |
| 2021 (n = 852) | 18.5 | 16.1 | 0.0 | 4.1 | 12.2 | 2.7 | 0.5 | 0.2 | 0.2 |
| 2022 (n = 867) | 16.3 | 13.1 | 0.6 | 5.8 | 14.3 | 2.6 | 0.0 | 0.1 | 0.9 |

Key: CLA = clarithromycin, CLI = clindamycin, COT = co-trimoxazole, DOX = doxycycline, FUS = fusidic acid, GEN = gentamicin, LZD = linezolid, MUP = mupirocin, RIF = rifampicin


**Ffigur 17: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia MSSA (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu cynnydd yn nifer yr achosion o facteremia MSSA â'r canlyniadau oedd **764** yn 2020 a 867 yn 2022.
- Bu cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y gyfradd ymwrthedd i clarithromycin (CLA) o **12.0%** yn 2016 i **18.9%** yn 2020, a **16.3%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i clindamycin (CLI) o **8.6%** yn 2016 i **16.1%** yn 2021, a **13.1%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.
- Mae'r cyfraddau ymwrthedd i co-trimoxazole (COT) wedi parhau ar gyfradd o **<1%**.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i doxycycline (DOX) o **3.6%** yn 2017 i **5.8%** yn 2022.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i asid ffwsidig (FUS) o **11.5%** yn 2017 i **14.3%** yn 2022.
- Bu cynnydd cyffredinol yn y gyfradd ymwrthedd i gentamicin (GEN) o **0.5%** yn 2017 i **2.6%** yn 2022.
- Mae'r cyfraddau ymwrthedd i linezolid (LZD), mupirocin (MUP) a rifampicin (RIF) wedi parhau ar gyfradd o **<1%**.

## *Enterococcus* spp. (n = 549 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *Enterococcus* spp. yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 18**. Mae'r tueddiadau yng nghyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 19**.





| | AMO | VAN |
|---|---|---|
| %R | 40.3 | 11.2 |
| %I | 0.2 | 0.0 |
| %S | 59.6 | 88.8 |

Key: AMO = amoxicillin, VAN = vancomycin

**Ffigur 18: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Enterococcus* spp. (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **40.3%** [36.2, 44.4] i amoxicillin (AMO).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **11.2%** [8.8, 14.1] i vancomycin (VAN).




| | AMO | VAN |
|---|---|---|
| 2016 (n = 473) | 40.0 | 14.3 |
| 2017 (n = 465) | 43.9 | 16.3 |
| 2018 (n = 494) | 44.7 | 16.3 |
| 2019 (n = 469) | 43.9 | 17.5 |
| 2020 (n = 463) | 43.8 | 11.7 |
| 2021 (n = 534) | 40.2 | 8.8 |
| 2022 (n = 549) | 40.3 | 11.2 |

Key: AMO = amoxicillin, VAN = vancomycin


**Ffigur 19: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *Enterococcus* spp. (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu cynnydd yn nifer yr achosion o facteremia *Enterococcus* spp. â'r canlyniadau yn cynyddu o **473** yn 2016 i **549** yn 2022.
- Yn 2022, cyfradd ymwrthedd Cymru gyfan i amoxicillin yn *Enterococcus* spp. oedd **40.3%**. Mae'r rhagduedd ar gyfer amoxicillin yn rhoi canllaw i ffurfiant rhywogaethau'r organeb, gydag *E. faecalis* fel arfer yn dangos rhagduedd ac *E. faecium* fel arfer yn dangos ymwrthedd, ac mae'n awgrymu bod **59.7%** o'r achosion o facteremia entercocol yn 2022 deillio o *E. faecalis.*
- Bu amrywiadau yn y cyfraddau ymwrthedd i vancomycin (VAN), a **11.2%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.

## *Streptococcus pneumoniae* (n = 260 yn 2022)

Mae patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan (**S/I/R**) ar gyfer bacteremia *St. pneumoniae* yn 2022 i'w gweld yn **Ffigur 20**. Mae'r tueddiadau yng nghyfraddau ymwrthedd Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2022 i'w gweld yn **Ffigur 21**.





| | CLA | DOX | PEN |
|---|---|---|---|
| %R | 4.6 | 5.0 | 3.9 |
| %I | 0.8 | 0.0 | 2.7 |
| %S | 94.6 | 95.0 | 93.4 |

Key: CLA = clarithromycin, DOX = doxycycline, PEN = penicillin

**Ffigur 20: Patrymau rhagdueddiadau Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *St. pneumoniae* (2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Roedd cyfradd ymwrthedd o **4.6%** [2.7, 7.9] i clarithromycin (CLA).
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **5.0%** [3.0, 8.4] i doxycycline (DOX) .
- Roedd cyfradd ymwrthedd o **3.9%** [2.1, 7.0] i penicillin (PEN].




| | CLA | DOX | PEN |
|---|---|---|---|
| 2016 (n = 400) | 5.3 | 5.6 | 0.5 |
| 2017 (n = 405) | 3.2 | 2.7 | 0.2 |
| 2018 (n = 400) | 3.5 | 4.3 | 0.2 |
| 2019 (n = 405) | 3.2 | 3.5 | 1.5 |
| 2020 (n = 163) | 4.3 | 5.0 | 3.7 |
| 2021 (n = 161) | 4.4 | 6.2 | 0.0 |
| 2022 (n = 260) | 4.6 | 5.0 | 3.9 |

Key: CLA = clarithromycin, DOX = doxycycline, PEN = penicillin

**Ffigur 22: Cyfraddau ymwrthedd gwrthficrobaidd Cymru gyfan ar gyfer bacteremia *St. pneumoniae* (2016 - 2022)**

## Yr hyn y mae'r data yn ei ddangos

- Bu gostyngiad amlwg yn nifer yr achosion o facteremia *St. pneumoniae* â'r canlyniadau yn gostwng o **400** yn 2016 i **260** yn 2022.
- Ni fu unrhyw newid sylweddol yn y cyfraddau ymwrthedd ar gyfer clarithromycin (CLA) a doxycycline (DOX) dros amser.
- Bu amrywiadau hefyd yn y gyfradd ymwrthedd i penicillin (PEN), a **3.9%** oedd y gyfradd ymwrthedd yn 2022.

# Dolenni defnyddiol:

Adolygiad o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd, Mai 2016
https://amr-review.org/

Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU 2013-18
https://www.gov.uk/government/publications/uk-5-year-antimicrobial-resistance-strategy-2013-to-2018

Cynllun Cyflenwi Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (Cymru) Law yn Llaw at Iechyd: Taclo ymwrthedd gwrthficrobaidd a gwella rhagnodi gwrthfiotigau.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Antimicrobial%20Resistance%20Delivery%20Plan.pdf

Gweledigaeth 20 mlynedd y DU ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd
https://www.gov.uk/government/publications/uk-20-year-vision-for-antimicrobial-resistance

Ymwrthedd gwrthficrobaidd: Y DU yn lansio cynllun gweithredu 5 mlynedd a gweledigaeth 20 mlynedd
https://www.gov.uk/government/news/antimicrobial-resistance-uk-launches-5-year-action-plan-and-20-year-vision

EUCAST EUROPEAN COMMITTEE ON ANTIMICROBIAL SUSCEPTIBILITY TESTING
European Society of Clinical Microbiology and Infectious Diseases

https://eucast.org/clinical_breakpoints/